# Polisi Gweithio ar eich Pen eich Hun

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *Chwefror 2016* |
| **Perchennog y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd* |
| **Cyswyllt y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Polisi / Cyfarwyddyd** | *Newydd* |
| **Cyfeirnod** | *P007* |
| **Fersiwn** | *V1.0* |
| **Dyddiad Adolygu** | *Bob 3 Mlynedd* |

**1.0 Pwrpas:**

1.1 Cynnig arweiniad ar ofynion Prifysgol Aberystwyth (PA) ar gyfer asesu Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

1.2 Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i asesu pob risg i iechyd a diogelwch, gan gynnwys y risg o weithio ar eich pen eich hun. Os yw'r asesiad risg yn dangos nad yw'n bosibl i'r gwaith gael ei wneud yn ddiogel gan weithiwr ar ei ben ei hun, yna bydd rhaid sefydlu trefniadau eraill.

1.3 Sicrhau bod y risg o weithio ar eich pen eich hun yn cael ei hasesu yn drwyadl ac yn barhaus, a bod systemau a dulliau gweithio yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau, cyn belled ag y bo hynny yn rhesymol ymarferol.

**2.0 Deddfwriaeth Berthnasol:**

2.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974

2.2 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999

**3.0 Cwmpas:**

3.1 Holl aelodau staff PA sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

3.2 Gweithio ar eich pen eich hun ar gampws PA ac oddi arno.

3.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff PA, yn cynnwys gweithwyr dros dro, gweithwyr dan gontract, staff asiantaethau a myfyrwyr.

3.4 Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol ar y cyfan i staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain mewn swyddfa yn ystod oriau gwaith (tua 9 y.b. – 5.30 y.h. yn ystod yr wythnos). Ond efallai y bydd yn berthnasol os bydd y math o waith a wneir yn fwy o risg os ydych yn gweithio ar eich pen eich hun. Nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau ychwaith.

**4.0 Diffiniadau:**

4.1 *'Gweithiwr ar ei ben ei hun'*: Pobl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain heb oruchwyliaeth agos neu uniongyrchol. Er enghraifft:

a) *Rhywun sy'n gweithio ar ei ben ei hun mewn labordy neu weithdy*

b) *Gweithwyr o'r cartref*

c) *Rhywun sy'n gweithio mewn swyddfa ar ei ben ei hun mewn adeilad sydd fel arall yn wag*

d) *Rhywun sy'n gweithio mewn lleoliad anghysbell*

e) *Gweithwyr symudol i ffwrdd o'r gweithle*

4.2 *'System Gyfeillio'*: Trefn yw hon y gall dau unigolyn, "y cyfeillion", ei gweithredu fel uned sengl, i fonitro a helpu ei gilydd.

**5.0 Cyfrifoldebau:**

*5.1* ***Penaethiaid Adrannau:***

5.1.1 Sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain yn cael eu cynnal gan Reolwyr a/neu Oruchwylwyr – mae hynny'n cynnwys asesiadau risg ar gyfer ystafelloedd cyfrifiaduron 24 awr a chyfleusterau llyfrgell.

5.1.2 Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol i'r holl reolwyr a goruchwylwyr y mae'n berthnasol iddynt; mae hynny'n cynnwys gweithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr.

5.1.3 Darparu polisi/arweiniad lleol (Cyfadran / Adrannol) ar weithio ar eich pen eich hun fel rhan o'r Llawlyfrau Cyfadran / Adrannol.

*5.2* ***Rheolwyr / Goruchwylwyr***

5.2.1 Adnabod gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a'u gweithgareddau drwy'r Adran.
5.2.2 Cynnal asesiadau risg ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun gydag unigolion, os oes angen, a sicrhau bod gweithio ar eich pen eich hun yn cael ei ystyried ym mhob asesiad risg sydd dan eu gofal.
5.2.3 Sicrhau bod cofnodion priodol o'r asesiadau risg yn cael eu cadw.
5.2.4 Annog osgoi gweithio ar eich pen eich hun a rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n lleihau'r nifer o bobl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.
5.2.5 Sicrhau bod gweithwyr sydd newydd eu penodi yn derbyn hyfforddiant priodol ar weithio ar eu pen eu hunain os gofynnir iddynt wneud hynny yn rhan o'u gwaith;
5.2.6 Sicrhau bod pob gweithiwr yn derbyn hyfforddiant craidd ar iechyd a diogelwch.
5.2.7 Rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r asesiadau risg ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun a gwneud newidiadau rheoli yn unol â hynny;
5.2.8 Sicrhau bod adolygiad o'r asesiadau yn cael ei gynnal yn flynyddol neu os (er enghraifft) oes newidiadau mawr i natur y gwaith
5.2.9 Sicrhau goruchwyliaeth briodol. Gall hynny gynnwys:
5.2.9.1 Gwirio yn achlysurol (arsylwi uniongyrchol)
5.2.9.2 Cysylltu yn achlysurol (e.e. ffôn/radio)
5.2.9.3 Cysylltu â gweithwyr eraill sy'n gweithio ar eu pen eu hunain
5.2.9.4 Dyfeisiau rhybudd awtomatig
5.2.9.5 Larymau cyffredinol neu benodol ar gyfer achosion brys
5.2.9.6 Cadarnhau bod gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain wedi dychwelyd i ben eu taith ar ôl gorffen. Dylai goruchwylwyr a/neu aelodau dynodedig eraill o'r staff fod yn ymwybodol o'r amser y bydd gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun i ffwrdd o'r safle.
5.2.10 Datgan na ellir caniatáu ambell weithgarwch oherwydd bod lefel y risg yn rhy uchel. Er enghraifft, gallu defnyddio offer mecanyddol mewn tywydd difrifol neu mewn lle cyfyng.
5.2.11 Posibilrwydd o helpu i roi system gyfeillio ar waith.

***5.3 Gweithio ar eich pen eich hun***

5.3.1 Rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r asesiad risg ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun a chymryd cyfrifoldeb ar gyfer dilyn y cyngor sy'n deillio o'r asesiad.
5.3.2 Osgoi gweithio ar eich pen eich hun lle bo hynny'n bosibl.
5.3.3 Rhaid bod gennych brofiad addas, wedi derbyn cyfarwyddiadau priodol ac, os bydd angen, hyfforddiant, ar gyfer y risgiau yr ydych yn eu hwynebu, ynghyd â'r mesurau rheoli a ddefnyddir.
5.3.4 Gofalu amdanoch eich hun, a bod yn gyfrifol amdanoch chi ac eraill sy'n cael eu heffeithio gan y gwaith, a chydweithredu â Phrifysgol Aberystwyth i fodloni ei hymrwymiadau cyfreithiol.
5.3.5 Gofyn bod adolygiad o'r asesiad yn cael ei gynnal os (er enghraifft) oes newidiadau mawr i natur tasgau'r gwaith

***5.4 Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd PA***

5.4.1 Darparu hyfforddiant ar gyfer asesiadau risg

## 6.0 Asesiadau Risg:

6.1 Rhaid ystyried yr isod o leiaf:

a) Gallu unigolyn i gyflawni gweithgaredd yn ddiogel ar ei ben ei hun

b) Ffitrwydd unigolyn
c) Salwch neu anableddau
d) Arwahanrwydd cymdeithasol
e) Posibilrwydd o drais a bod unigolyn yn tynnu'n ôl o sefyllfa beryglus
f) Risgiau sy'n gysylltiedig â gyrru
g) Diogelwch tân
h) Mesurau rhagofalus a mesurau brys presennol.

6.2 Enghreifftiau o System Weithio Ddiogel:

a) Gweithio gydag eraill ar weithgareddau risg uchel
b) Golau diogelwch
c) Gwella trefniadau diogelwch adeiladau
d) Trefniadau cofrestru a monitro – staff yn gallu cofnodi eu presenoldeb gyda'r Bwthyn Diogelwch neu gydag aelodau eraill o staff.
e) Systemau cyfathrebu ar gyfer rhannu gwybodaeth ar risg gyda chydweithwyr mewn disgyblaethau ac asiantaethau eraill.
f) Cyfarpar diogelu personol, ffonau symudol a larymau personol
g) Cyfarpar brys y gall fod ei angen, megis tortsys, mapiau, rhifau ffôn y gwasanaethau brys.

**7.0 Trefn Sylfaenol:**

7.1 Darparu gweithdrefnau adrannol ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun i oruchwylwyr/rheolwyr.

7.2 Goruchwyliwr/rheolwr i drafod gofynion gweithio ar eich pen eich hun gyda phob gweithiwr dan eu gofal.

7.3 Goruchwyliwr/rheolwr a'r gweithiwr i lunio asesiad risg addas a digonol.

7.4 Gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau arferion gweithio-ar-eich-pen-eich-hun diogel os na ellir osgoi gweithio ar eich pen eich hun.

7.5 Angen adolygu a goruchwylio asesiadau risg yn achlysurol.

**8.0 Gwybodaeth Bellach:**

8.1 HSE Working Alone
8.2 HSE Lone Workers
8.3 HSE Lone Workers cont.
8.4 HSE Lone Working
8.5 HSE Homeworkers
8.6 HSE Summary of Key Points

***Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor o'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.***